

Darparu sgiliau ar gyfer eich busnes

# CANLLAW CYFLOGWYR I BRENTISIAETHAU

Prentisiaeth Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 - Plymwaith a Gwresogi

AR GYFER BUSNES CAMBRIA FOR BUSINESS

Prentisiaethau Apprenticeships

www.cambria.ac.uk/busnes 0300 30 30 006 employers@cambria.ac.uk

# CROESO

## Mae'r brentisiaeth hon wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn cyflogaeth mewn swydd gosodiadau gwresogi ac awyru sydd ag awydd i ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol gan y diwydiant i ddatblygu eu gyrfaoedd.

Mae'r timau asesu yn Cambria ar gyfer Busnes yn gweithio'n agos gyda chwmnïau, rheolwyr, adrannau ac unigolion i deilwra asesiadau i weddu'r gweithrediad penodol a swydd y gweithiwr.



## Gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu prentisiaethau.

Cyn cofrestru ar gyfer prentisiaeth, byddwn yn cynnal ymholiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer eich cwmni i gadarnhau fod polisïau statudol Iechyd a Diogelwch ar waith. Byddwn yn monitro Iechyd a Diogelwch eich prentis yn rheolaidd trwy gydol y rhaglen hyfforddi. Byddwn yn trefnu'r gwerthusiad gyda chyflogwyr ac mae gofyn i gyflogwyr i wneud sylwadau ar gynnydd prentisiaid. Mae'r gwerthusiadau hyn wedi'u cynllunio i gofnodi a thargedu'r cynnydd ar bob elfen o'r fframweithiau prentisiaeth.

## Gosod Targedau


Yn ystod pob adolygiad prentis, bydd yr ymarferydd dysgu yn y gwaith yn cadarnhau targedau a gytunwyd arnynt gyda'r prentis a'r cyflogwr ar gyfer beth y dylid ei gwblhau erbyn eu hymweliad nesaf. Bydd hefyd yn rhoi amser i'r ymarferydd dysgu yn y gwaith adolygu a rhoi adborth ar unrhyw waith asesu a gyflwynwyd, a chynllunio rhagor o asesiadau ar gyfer y dyfodol.

## Pa gymwysterau yn y gwaith fydd yn addas ar gyfer fy mhrentis?

Byddwn yn holi am natur y brentisiaeth ac, os oes angen, byddwn yn ymweld â'r safle er mwyn deall y gwaith y bydd y prentis yn ei wneud. Dylid dewis cymwysterau a llwybrau a fydd yn addas i ofynion y brentisiaeth ac yn adlewyrchu gwaith y dysgwr yn gywir, fel ei fod yn gallu dangos ei gymhwysedd.

## A all fy mhrentis wneud rhagor o hyfforddiant yn ystod ei brentisiaeth?

Wrth gwrs, ond rydym yn cynghori y dylai'r hyfforddiant fod yn gymesur, fel bod y prentis yn gallu cwblhau gofynion y brentisiaeth bresennol.



## Beth yw prentis da?

Unigolyn llawn cymhelliant a brwdfrydig, sy'n gweithio'n galed ac yn barod i ddysgu.

## Cymorth gan y Darparwr Hyfforddiant

Bydd prentisiaid yn cael cymorth parhaus gan staff y coleg, gydag arweiniad un i un penodol a chymorth gan eu hasesydd yn y gwaith.

## Pa gymorth sydd angen i mi ei roi i fy mhrentis?

Mae angen i brentisiaid gael anogaeth a chyfranogiad eu cyflogwyr drwy gydol y broses hyfforddi ac adolygu. Bydd hyn yn sicrhau fod y prentis yn cael y cyfle i weithio mewn meysydd amrywiol gyda chyd-weithwyr gwahanol i gyfoethogi eu profiad dysgu yn rhagor. Bydd y berthynas hon gyda phob parti yn cynorthwyo'r prentis mewn llwybr gyrfa strwythuredig. Mae'n bwysig bod eich prentis yn cael amser a chymorth i fodloni terfynau amser yr hyfforddiant, eu bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith a'u hyfforddiant, ac yn cael eu hannog yn gyffredinol i gymryd rhan ym mhob agwedd ar eu bywyd gwaith. Mae hefyd yn bwysig fod cyflogwyr yn rhoi cyfle i'r prentis wneud mathau priodol o dasgau yn y gwaith, fel y gall unigolyn feithrin eu sgiliau a bodloni'r gofynion cymhwysedd yn y gwaith.

# WELSH APPRENTICESHIP FFRAMWAITH PRENTISIAETH GYMREIG MEWN GWASANAETHAU ADEILADU - PLYMWAITH A

## Glannau Dyfrdwy: MY10263
## Ffordd Y Bers: MY10264
## Hyd: 48 mis

Mae cymwysterau adeiladu ledled Cymru wedi newid. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn, ewch i https://www.skillsforwales.wales/cy

Y newidiadau mwyaf amlwg i'r fframweithiau prentisiaeth yw mai dim ond ar fframwaith lefel 3 y mae prentisiaethau ar gael erbyn hyn, mae'r strwythur asesu a chyfranogiad y cyflogwr wrth gadarnhau bod eu prentisiaid ar y lefel sgiliau gofynnol ar gyfer asesu.

## Gofynion mynediad

- Bod yn gyflogedig am o leiaf 16 awr yr wythnos yn eich swydd masnach benodol.

- TGAU A-C neu SHC Lefel 2 (Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, Mathemateg a phwnc technegol, er enghraifft gwyddoniaeth, technoleg dylunio neu dystysgrif masnach lefel 1)

## Beth sydd wedi'i gynnwys mewn fframwaith prentisiaeth?

- 1 Diwrnod yr wythnos o hyfforddiant a datblygu naill ai ar ein safle yng Nglannau Dyfrdwy neu Ffordd y Bers. Bydd bloc o fynychu'r coleg tuag at ddiwedd y brentisiaeth ar gyfer paratoi ac asesu ar gyfer asesiadau cymhwysedd wedi'u rheoleiddio gan y diwydiant.

- Cymorth parhaus gan ymarferwyr dysgu yn y gwaith (WBLP) yn y gweithle.

- Datblygu sgiliau hanfodol wrth gymhwyso rhif, cyfathrebu a sgiliau digidol ym maes adeiladu.

## Addysgu, asesu a chyfranogiad cyflogwyr

Mae hwn yn gymhwyster CRAIDD - byddwn yn canolbwyntio ar yr addysgu yn gynnar yn y rhaglen brentisiaeth a bydd yn cael ei asesu trwy arholiad ar y sgrin, prosiect ymarferol a thrafodaeth dan arweiniad gyda dysgwyr yn cyflawni llwyddo, teilyngdod neu ragoriaeth.

Gall dysgwyr sydd wedi cwblhau cymhwyster Lefel 2 perthnasol yn flaenorol gael eu heithrio rhag ymgymryd â chymhwyster CRAIDD.

Lefel 3 - Bydd y dysgwyr yn dysgu sgiliau theori ac ymarferol trwy gydol eu prentisiaeth yn y coleg ac mae'n ofynnol i'r cyflogwr barhau i ddatblygu sgiliau yn y gweithle.

Mae angen i ddysgwyr gwblhau dyddiadur safle o'r gwaith maent yn ei gwblhau yn y gweithle yn wythnosol ac mae'n rhaid ei gyflwyno i'r ymarferydd dysgu yn y gwaith yn fisol. Mae hwn yn un o ofynion gorfodol y cymhwyster y mae'n rhaid ei wneud i gyflawni llwyddiant terfynol.

Mae'n rhaid i'r cyflogwyr gwblhau canllaw cadarnhau i gyflogwyr er mwyn cadarnhau bod prentisiaethau yn dangos eu bod yn gweithio i safonau'r diwydiant presennol yn rheolaidd. Lle nodir bylchau yn yr ystod o waith efallai y bydd gofyniad i gyflogwyr naill ai drefnu gwaith i lenwi'r bwlch neu leoli prentisiaid gyda chwmni arall i ennill profiad gyda'r sgiliau/tasgau neu asesiadau gweithle gofynnol.

## Bydd asesiadau'n cael eu graddio fel llwyddo, teilyngdod neu ragoriaeth:

- 3 asesiad ar y sgrin
- Prosiect ymarferol sydd wedi'i ddylunio er mwyn asesu cymhwysedd dysgwyr ac mae'n rhaid i'r ymarferydd dysgu yn y gwaith, y dysgwr a'r cyflogwr ei gynllunio a chytuno arno.
- Trafodaeth broffesiynol allanol ar ddiwedd y cwrs.

## Ystod y Gwaith

- Paratoi, ffabrigo a gosod Systemau Pibellau Gwresogi ac Awyru mewn lleoliadau gwahanol a chynnwys llawer o wahanol fathau o systemau gwahanol.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn y canllaw cadarnhau i gyflogwyr. Lle na ellir cyflawni ystodau o waith, mae cyflogwyr yn gyfrifol am ddangos tystiolaeth o gytundebau lleoliad gwaith.

## Y Broses Gofrestru

Gellir gwneud ymholiadau cychwynnol trwy'r tîm Cambria ar gyfer Busnes ar 0300 30 30 006 neu anfonwch e-bost at employers@cambria.ac.uk

Bydd yr ymarferydd dysgu yn y gwaith yn cadarnhau'r sgan ystod gwaith i sicrhau bod dysgwyr yn addas ar gyfer y cwrs.

Yn ystod y broses gofrestru bydd angen darparu tystiolaeth o gyflogaeth, tystiolaeth o oedran, tystiolaeth cyfeiriad a thystiolaeth o hawl i weithio yn y DU.

Cadarnhad o le a neilltuwyd ar y cwrs. Bydd y cyflogwr yn mynd i un o'r sesiynau gwybodaeth naill ai'n wyneb yn wyneb neu'n rhithwir.